



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2010 Rhif 748 (Cy.76)

2010 No. 748 (W.76)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol,
Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i
Botelu (Cymru) (Diwygio)
2010

The Natural Mineral Water, Spring
Water and Bottled Drinking Water
(Wales) (Amendment) Regulations
2010

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2007 (O.S. 2007/3165 (Cy. 276)), ("y prif Reoliadau") (fel y'i diwygiwyd eisoes).

These Regulations amend the Natural Mineral Water, Spring Water and Bottled Drinking Water (Wales) Regulations 2007 (S.I. 2007/3165 (W.276)), ("the principal Regulations") (as previously amended).

1. Mae'r Rheoliadau hyn—

1. These Regulations—

- (a) yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi, o ran Cymru, Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 115/2010 sy'n pennu'r amodau ar gyfer defnyddio alwmina actifedig i dynnu fflworid o ddŵr mwynol naturiol a dŵr ffynnon (OJ Rhif L37, 10.2.2010 t.13); a
- (b) yn gweithredu, o ran Cymru, Erthygl 7.1 i 3 a 6 o Gyfarwyddeb y Cyngor 98/83/EC sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr a fwriedir i'w yfed gan bobl (OJ Rhif L330, 3.11.98, t.32).

- (a) provide for the execution and enforcement in relation to Wales of Commission Regulation (EU) No. 115/2010 laying down the conditions for use of activated alumina for the removal of fluoride from natural mineral waters and spring waters (OJ No. L 37, 10.2.2010 p.13); and
- (b) implement, in relation to Wales, Article 7.1 to 3 and 6 of Council Directive 98/83/EC relating to the quality of water intended for human consumption (OJ No. L330, 3.11.98, p.32).

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau drwy—

2. These Regulations amend the principal Regulations by—

- (a) mewnosod diffiniadau o "triniaeth awdurdodedig ag alwmina actifedig", "Rheoliad 115/2010" ac amnewid rhai geiriau yn y diffiniad o "techneg ocsidio awdurdodedig gydag aer a gyfoethogwyd ag osôn" ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli) (*rheoliad 3*);
- (b) rhoi fersiwn ddiwygiedig yn lle paragraff (1) o reoliad 6 (triniaethau i ddŵr mwynol naturiol ac ychwanegiadau ato) er mwyn ychwanegu triniaethau awdurdodedig ag alwmina actifedig at y rhestr o driniaethau y ceir eu rhoi yn gyfreithlon i ddŵr ffynnon naturiol (*rheoliad 4*);

- (a) inserting definitions of "authorised activated alumina treatment", "Regulation 115/2010" and substituting certain words in the definition of "authorised ozone-enriched oxidation technique" in paragraph (1) of regulation 2 (interpretation) (*regulation 3*);
- (b) substituting a revised version of paragraph (1) of regulation 6 (treatment and additions for natural mineral water) in order to add authorised activated alumina treatments to the list of treatments to which natural mineral water in its state at source may lawfully be subjected (*regulation 4*);

- (c) ychwanegu paragraff at reoliad 10 (potelu dŵr ffynnon a datblygu ffynhonnau dŵr ffynnon) sy'n gwahardd potelu dŵr, a driniwyd ag alwmina actifedig i dynnu fflworid ohono, mewn potel sydd wedi'i marcio neu'i labelu fel "dŵr ffynnon" onid yw'r driniaeth yn driniaeth awdurdodedig ag alwmina actifedig (*rheoliad 5*);
- (ch) yn lle paragraff (3) o reoliad 16 (gorfodi), gosod paragraffau (3) i (6) newydd er mwyn—
- (i) gwneud yn ofynnol bod awdurdodau perthnasol yn cyflawni gwiriadau cyfnodol ar y triniaethau awdurdodedig ag alwmina actifedig a awdurdodwyd ganddynt yn unol â'r Atodlen 1A newydd, er mwyn sicrhau y parheir i fodloni gofynion yr Atodlen honno,
- (ii) gwneud yn ofynnol bod awdurdodau bwyd yn monitro ansawdd dŵr yfed a dŵr ffynnon sydd wedi ei botelu, yn rheolaidd at ddibenion penodedig,
- (iii) er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad hwnnw, gwneud yn ofynnol bod awdurdodau bwyd—
- (aa) yn monitro drwy wiriadau rheolaidd mewn perthynas â'r paramedrau, priodweddau, elfennau, sylweddau ac organebau yn yr Atodlen 10 newydd,
- (bb) yn monitro drwy archwiliad mewn perthynas ag unrhyw baramedr a'r priodweddau, elfennau, sylweddau ac organebau yn yr Atodlen 9 newydd, ac
- (cc) at y diben hwnnw, cyflawni unrhyw samplu a dadansoddi yn unol â'r amllderau lleiaf perthnasol a bennir yn yr Atodlen 11 newydd, a
- (iv) gwneud yn ofynnol bod awdurdodau bwyd yn cyflawni monitro ychwanegol mewn perthynas ag unrhyw briodwedd, elfen, sylwedd neu organeb nad yw'n baramedr nac yn briodwedd, elfen, sylwedd neu organeb a bennir yn yr Atodlen 9 newydd, os oes rheswm i amau y gall fod yn bresennol yn y dŵr dan sylw mewn maint neu nifer sy'n achosi perygl posibl i iechyd dynol (*rheoliad 6*);
- (d) rhoi rheoliad diwygiedig yn lle rheoliad 20 (tramgwyddau a chosbau) er mwyn gwneud yn dramgwydd peidio â chydymffurfio â darpariaethau penodedig o Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 115/2010 neu gyflawni triniaeth awdurdodedig ag alwmina actifedig sydd â'i heffaith yn ddiheintiol (*rheoliad 7*);
- (c) adding a paragraph to regulation 10 (bottling of spring water and exploitation of spring water springs) prohibiting the bottling of water which has been treated with activated alumina for removal of fluoride in a bottle marked or labelled "spring water" unless the treatment is an authorised activated alumina treatment (*regulation 5*);
- (d) substituting for paragraph (3) of regulation 16 (enforcement) new paragraphs (3) to (6) in order to—
- (i) require relevant authorities to carry out periodic checks on authorised activated alumina treatments which they have authorised in accordance with new Schedule 1A, to ensure that the requirements of that Schedule continue to be satisfied,
- (ii) require food authorities to carry out regular monitoring of the quality of bottled drinking water and spring water for specified purposes,
- (iii) in order to comply with that requirement, require food authorities to—
- (aa) carry out regular check monitoring in relation to the parameters, properties, elements, substances and organisms set out in new Schedule 10,
- (bb) carry out audit monitoring in relation to any parameter and the properties, elements, substances and organisms set out in new Schedule 9, and
- (cc) for that purpose to carry out sampling and analysis in accordance with the relevant minimum frequencies set out in new Schedule 11, and
- (iv) require food authorities to carry out additional monitoring in relation to any property, element, substance or organism which is neither a parameter nor a property, element, substance or organism set out in new Schedule 9 if they have reason to suspect that it may be present in the water concerned in an amount or number which constitutes a potential danger to human health (*regulation 6*);
- (e) substituting a revised regulation 20 (offences and penalties) in order to make it an offence to fail to comply with specified provisions of Commission Regulation (EU) No. 115/2010 or to carry out an authorised activated alumina treatment that has a disinfectant action (*regulation 7*);

(dd) mewnosod Atodlenni 1A, 9, 10 ac 11 newydd (*rholiadau 8 a 9*); ac

(e) mewnosod disgrifiadau labeli Saesneg mewn amryw rannau o'r fersiwn Gymraeg o'r prif Reoliadau (*rheoliad 10*).

3. Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn ar gyfer yr offeryn hwn, oherwydd na ragwelir unrhyw effaith ar y sectorau cyhoeddus na gwirfoddol.

(f) insert new Schedules 1A, 9, 10 and 11 (*regulations 8 and 9*); and

(g) inserting English language label descriptions in various parts of the Welsh language version of the principal Regulations (*regulation 10*).

3. A full impact assessment has not been produced for this instrument as no impact on the public or voluntary sectors is foreseen.

2010 Rhif 748 (Cy.76)

BWYD, CYMRU

**Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol,
Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i
Botelu (Cymru) (Diwygio)
2010**

Gwnaed 11 Mawrth 2010
*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 12 Mawrth 2010
Yn dod i rym 9 Ebrill 2010

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1), 17(1), 26(1)(a) a (3), 31 a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a pharagraffau 1 a 4(b) o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno(1) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2).

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, maent wedi rhoi ystyriaeth i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn

-
- (1) 1990 p. 16; disodlwyd adran 1(1) a (2) (y diffiniad o "bwyd") gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adrannau 17 a 48 gan baragraffau 12 a 21 yn eu trefn o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), "Deddf 1999". Cafodd adran 48 hefyd ei diwygio gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adran 26(3) gan Atodlen 6 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 53(2) gan baragraff 19 o Atodlen 16 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (1994 p. 40), Atodlen 6 i Ddeddf 1999 ac O.S. 2004/2990.
- (2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999, a'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).

2010 No. 748 (W.76)

FOOD, WALES

**The Natural Mineral Water, Spring
Water and Bottled Drinking Water
(Wales) (Amendment) Regulations
2010**

Made 11 March 2010
*Laid before the National
Assembly for Wales* 12 March 2010
Coming into force 9 April 2010

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 16(1), 17(1), 26(1)(a) and (3), 31 and 48(1) of and paragraphs 1 and 4(b) of Schedule 1 to the Food Safety Act 1990(1) and now vested in them(2).

In accordance with section 48(4A) of that Act, they have taken into account relevant advice given by the Food Standards Agency.

As required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European

-
- (1) 1990 c. 16; section 1(1) and (2) (definition of "food") was substituted by S.I. 2004/2990. Sections 17 and 48 were amended by paragraphs 12 and 21 respectively of Schedule 5 to the Food Standards Act 1999 (1999 c.28), "the 1999 Act". Section 48 was also amended by S.I. 2004/2990. Section 26(3) was amended by Schedule 6 to the 1999 Act. Section 53(2) was amended by paragraph 19 of Schedule 16 to the Deregulation and Contracting out Act 1994 (1994 c. 40), Schedule 6 to the 1999 Act and S.I. 2004/2990.
- (2) Functions of the Secretary of State so far as exercisable in relation to Wales were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) as read with section 40(3) of the 1999 Act, and thereafter transferred to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (2006 c.32).

gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(1) cafwyd ymgynghori agored a thryloyw â'r cyhoedd yn ystod cyfnod paratoi a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) (Diwygio) 2010 a deuant i rym ar 9 Ebrill 2010.

Diwygio Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2007

2. Diwygir Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2007(2) yn unol â rheoliadau 3 to 10.

3. Ym mharagraff (1) of reoliad 2 (dehongli)–

- (a) yn union ar ôl y diffiniad o "techneg awdurdodedig i ocsidio aer a gyfoethogwyd ag osôn" mewnosoder y diffiniad canlynol–

"ystyr "triniaeth awdurdodedig ag alwmina actifedig" ("*authorised activated alumina treatment*") yw–

- (a) triniaeth i ddŵr mwynol naturiol a dŵr ffynnon gydag alwmina actifedig er mwyn tynnu fflworid ohono, sydd wedi ei hawdurdodi yn unol ag Atodlen 1A; neu
- (b) yn achos dŵr mwynol naturiol neu ddŵr ffynnon a ddygir i mewn i Gymru o ran arall o'r Deyrnas Unedig neu o wladwriaeth arall yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, triniaeth sy'n cydymffurfio ag Erthyglau 1 i 3 o Reoliad 115/2010;"

- (b) yn union ar ôl y diffiniad o "potel" mewnosoder y diffiniad canlynol–

"ystyr "Rheoliad 115/2010" ("*Regulation 115/2010*") Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 115/2010 sy'n pennu'r amodau ar gyfer defnyddio alwmina actifedig i dynnu fflworid o ddŵr mwynol naturiol a dŵr ffynnon(3);"

- (c) yn y diffiniad o "techneg awdurdodedig i ocsidio aer a gyfoethogwyd ag osôn" yn lle'r geiriau ""techneg awdurdodedig i ocsidio aer a gyfoethogwyd ag osôn"" rhodder ""techneg

Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(1) there has been open and transparent public consultation during the preparation and evaluation of these Regulations.

Title and commencement

1. These Regulations may be cited as the Natural Mineral Water, Spring Water and Bottled Drinking Water (Wales) (Amendment) Regulations 2010 and come into force on 9 April 2010.

Amendment of the Natural Mineral Water, Spring Water and Bottled Drinking Water (Wales) Regulations 2007

2. The Natural Mineral Water, Spring Water and Bottled Drinking Water (Wales) Regulations 2007(2) are amended in accordance with regulations 3 to 10.

3. In paragraph (1) of regulation 2 (interpretation)–

- (a) immediately after the definition of "the Agency" there is inserted the following definition–

""authorised activated alumina treatment" ("*triniaeth awdurdodedig ag alwmina actifedig*") means –

- (a) a treatment of natural mineral water and spring water with activated alumina in order to remove fluoride, that has been authorised in accordance with Schedule 1A; or
- (b) in the case of natural mineral water or spring water brought into Wales from another part of the United Kingdom or from another EEA state, a treatment which complies with Articles 1 to 3 of Regulation 115/2010;"

- (b) immediately after the definition of "prescribed concentration or value" there is inserted the following definition–

""Regulation 115/2010" ("*Rheoliad 115/2010*") means Commission Regulation (EU) No. 115/2010 laying down the conditions for use of activated alumina for the removal of fluoride from natural mineral waters and spring waters(3);"

- (c) in the definition of "authorised ozone-enriched oxidation technique" the words "*techneg awdurdodedig i ocsidio aer a gyfoethogwyd ag osôn*" are substituted with the words "*techneg*

(1) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 202/2008 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch nifer ac enwau Panelau Gwyddonol parhaol Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (OJ Rhif L60, 5.3.2008, t.17).

(2) O.S.2007/3165 (Cy.276), fel y'i diwygiwyd gan. O.S. 2009/1897 (Cy.170).

(3) OJ Rhif L 37, 10.2.2010 t.13.

(1) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1, as last amended by Commission Regulation (EC) No. 202/2008 amending Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council as regards the number and names of the permanent Scientific Panels of the European Food Safety Authority (OJ No. L60, 5.3.2008, p.17).

(2) S.I. 2007/3165 (W.276) amended by S.I. 2009/1897 (W.170).

(3) OJ No. L 37, 10.2.2010 p.13.

ocsidio awdurdodedig gydag aer a gyfoethogwyd ag osôn"

4. Yn lle paragraff (1) o reoliad 6 (triniaethau i ddŵr mwynol naturiol ac ychwanegiadau ato) rhodder y paragraff canlynol—

"(1) O ran dŵr mwynol naturiol yn ei gyflwr wrth y tarddiad, ni chaiff neb—

- (a) roi iddo unrhyw driniaeth ac eithrio —
 - (i) techneg ocsidio awdurdodedig gydag aer a gyfoethogwyd ag osôn,
 - (ii) gwahanu ei elfennau ansefydlog, megis cyfansoddion haearn a sylffwr, drwy hidlo neu ardywallt, pa un a ocsigeneiddir ef yn gyntaf ai peidio, i'r graddau nad yw'r driniaeth yn newid cyfansoddiad y dŵr o ran yr ansoddau hanfodol sy'n rhoi iddo ei briodoleddau,
 - (iii) dileu'r carbon deuocsid rhydd yn llwyr neu'n rhannol drwy ddulliau cyfan gwbl ffisegol, neu
 - (iv) triniaeth awdurdodedig ag alwmina actifedig; neu
- (b) ychwanegu dim ato ac eithrio cyflwyno neu ailgyflwyno carbon deuocsid i gynhyrchu dŵr mwynol naturiol eferw."

5. Yn union ar ôl paragraff (2) o reoliad 10 (potelu dŵr ffynnon a datblygu ffynhonnau dŵr ffynnon) mewnosoder y paragraff canlynol—

"(2A) Ni chaiff neb beri i unrhyw ddŵr, a driniwyd ag alwmina actifedig i dynnu fflworid ohono, gael ei botelu mewn potel sydd wedi'i marcio neu'i labelu fel "dŵr ffynnon" onid yw'r driniaeth honno yn driniaeth awdurdodedig ag alwmina actifedig."

6. Yn lle paragraff (3) o reoliad 16 (gorfodi) rhodder y paragraffau canlynol—

"(3) Rhaid i bob awdurdod perthnasol, o fewn ei ardal, gyflawni archwiliadau cyfnodol ar unrhyw driniaeth awdurdodedig ag alwmina actifedig, y rhoddwyd yr awdurdodiad ar ei chyfer gan yr awdurdod hwnnw yn unol ag Atodlen 1A er mwyn sicrhau y parheir i fodloni gofynion yr Atodlen honno.

(4) Rhaid i bob awdurdod bwyd, o fewn ei ardal, weithredu a gorfodi'r Rheoliadau hyn.

(5) At y dibenion o gyflawni'r swyddogaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (4) mewn perthynas â dŵr yfed a dŵr ffynnon wedi'i botelu, rhaid i bob awdurdod bwyd—

- (a) yn ddarostyngedig i baragraff (6), fonitro ansawdd unrhyw ddŵr o'r fath yn rheolaidd, er mwyn gwirio—

ocsidio awdurdodedig gydag aer a gyfoethogwyd ag osôn".

4. For paragraph (1) of regulation 6 (treatments and additions for natural mineral water) there is substituted the following paragraph—

"(1) No person may subject natural mineral water in its state at source to—

- (a) any treatment other than—
 - (i) an authorised ozone-enriched air oxidation technique,
 - (ii) the separation of its unstable elements, such as iron and sulphur compounds, by filtration or decanting, whether or not preceded by oxygenation, in so far as the treatment does not alter the composition of the water as regards the essential constituents which give it its properties,
 - (iii) the total or partial elimination of free carbon dioxide by exclusively physical methods, or
 - (iv) an authorised activated alumina treatment; or
- (b) any addition other than the introduction or the re-introduction of carbon dioxide to produce effervescent natural mineral water."

5. Immediately after paragraph (2) of regulation 10 (bottling of spring water and exploitation of spring water springs) there is inserted the following paragraph—

"(2A) No person may cause any water which has been treated with activated alumina for removal of fluoride to be bottled in a bottle marked or labelled "spring water", unless that treatment is an authorised activated alumina treatment."

6. For paragraph (3) of regulation 16 (enforcement) there are substituted the following paragraphs—

"(3) Each relevant authority must, within its area, carry out periodic checks on any authorised activated alumina treatment in respect of which the authorisation was granted by it in accordance with Schedule 1A, to ensure that the requirements of that Schedule continue to be satisfied.

(4) Each food authority must, within its area, execute and enforce these Regulations.

(5) For the purposes of carrying out the function referred to in paragraph (4) in relation to bottled drinking water and spring water each food authority must—

- (a) subject to paragraph (6), carry out regular monitoring of the quality of any such water to check whether—

- (i) a yw'n bodloni gofynion Cyfarwydddeb 98/83,
 - (ii) a yw'n cynnwys crynodiad neu werth ar gyfer unrhyw baramedr sydd uwchlaw'r crynodiad neu'r gwerth rhagnodedig,
 - (iii) a yw'n cynnwys crynodiad neu werth ar gyfer priodwedd, elfen, sylwedd neu organeb a bennir yn Atodlen 9 (fel y'i darllenir ynghyd â'r Nodiadau i'r Atodlen honno) sydd uwchlaw'r crynodiad neu'r gwerth a bennir yn yr Atodlen honno mewn perthynas â'r briodwedd, elfen, sylwedd neu organeb dan sylw, fel y'i mesurir yn ôl yr uned mesur a bennir felly,
 - (iv) pan fo awdurdod bwyd, yn unol ag is-baragraff (iii), yn canfod bod y dŵr dan sylw yn cynnwys crynodiad neu werth ar gyfer *Clostridium perfringens* (gan gynnwys sborau) sydd uwchlaw'r crynodiad neu'r gwerth a bennir mewn perthynas ag ef yn Atodlen 9 (fel y'i darllenir ynghyd â Nodyn 2 i'r Atodlen honno), a oes unrhyw berygl i iechyd dynol, sy'n codi o bresenoldeb micro-organebau pathogenig yn y dŵr, a
 - (v) pan fo diheintio yn rhan o baratoi neu ddosbarthu'r dŵr dan sylw, a yw'r driniaeth ddiheintio a roddir yn effeithlon, ac a gedwir yr halogi gan sgil-gynhyrchion diheintio mor isel ag y bo modd heb amharu ar effaith y diheintio.
- (b) er mwyn cydymffurfio ag is-baragraff (a)–
- (i) monitro yn rheolaidd drwy wiriadau y paramedrau, priodweddau, elfennau, sylweddau ac organebau a bennir yn Atodlen 10, (fel y'i darllenir ynghyd â'r Nodiadau i'r Atodlen honno), a
 - (ii) monitro drwy archwiliad mewn perthynas ag unrhyw baramedr a'r priodweddau, elfennau, sylweddau ac organebau a bennir yn Atodlen 9, (fel y'i darllenir ynghyd â'r Nodiadau i'r Atodlen honno);
- (c) at ddibenion is-baragraff (b), cyflawni unrhyw samplu a dadansoddi yn unol â'r amllderau lleiaf perthnasol a bennir yn Atodlen 11; ac
- (ch)cyflawni monitro ychwanegol mewn perthynas ag unrhyw briodwedd, elfen, sylwedd neu organeb nad yw'n baramedr nac yn briodwedd, elfen, sylwedd neu organeb a bennir yn Atodlen 9, os oes rheswm gan yr awdurdod bwyd i amau y
- (i) it satisfies the requirements of Directive 98/83,
 - (ii) it contains a concentration or value for any parameter in excess of its prescribed concentration or value,
 - (iii) it contains a concentration or value for a property, element, substance or organism set out in Schedule 9 (as read with the Notes to that Schedule) in excess of the concentration or value specified in relation to the property, element, substance or organism concerned in that Schedule as measured by the unit of measurement so specified,
 - (iv) where, in accordance with subparagraph (iii), a food authority determines that the water concerned contains a concentration or value for *Clostridium perfringens* (including spores) in excess of the concentration or value specified in relation to it in Schedule 9 (as read with Note 2 to that Schedule), there is any potential danger to human health arising from the presence in the water of pathogenic micro-organisms, and
 - (v) where disinfection forms part of the preparation or distribution of the water concerned, the disinfection treatment applied is efficient and any contamination from disinfection by-products is kept as low as is possible without compromising the disinfection.
- (b) in order to comply with subparagraph (a)–
- (i) carry out regular check monitoring in relation to the parameters, properties, elements, substances and organisms set out in Schedule 10, (as read with the Notes to that Schedule), and
 - (ii) carry out audit monitoring in relation to any parameter and the properties, elements, substances and organisms set out in Schedule 9, (as read with the Notes to that Schedule);
- (c) for the purposes of subparagraph (b), carry out sampling and analysis in accordance with the relevant minimum frequencies set out in Schedule 11; and
- (d) carry out additional monitoring in relation to any property, element, substance or organism which is neither a parameter nor a property, element, substance or organism set out in Schedule 9 if the food authority has reason to suspect it may be present in

gall fod yn bresennol yn y dŵr dan sylw mewn maint neu nifer sy'n achosi perygl posibl i iechyd dynol.

(6) Rhaid cyflawni'r gwiriadau a'r monitro y cyfeirir atynt ym mharagraff (5)(a), (b) ac (ch) gan ddefnyddio samplau sy'n gynrychiadol o ansawdd y dŵr dan sylw a ddefnyddir drwy gydol y flwyddyn y cymerir y samplau ynddi."

7. Yn lle rheoliad 20 (tramgwyddau a chosbau) rhodder y rheoliad canlynol—

"Tramgwyddau a chosbau

20.—(1) Mae person yn euog o dramgwydd ac yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy na fydd yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol os yw'r person hwnnw—

- (a) yn mynd yn groes i reoliad 5, 6(1), 7(1), (3) neu (4), 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15 neu 22(3);
- (b) yn peidio â chydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth o Reoliad 115/2010 a bennir ym mharagraff (2); neu
- (c) yn cyflawni triniaeth awdurdodedig ag alwmina actifedig sydd â'i heffaith yn ddiheintiol.

(2) Y darpariaethau yw—

- (a) Erthygl 1.2 (gofyniad bod triniaethau awdurdodedig ag alwmina actifedig yn cael eu cyflawni yn unol â'r gofynion technegol a bennir yn yr Atodiad);
- (b) y frawddeg gyntaf o Erthygl 2 (gofyniad bod maint y gweddillion a ryddheir i ddŵr mwynol naturiol neu ddŵr ffynnon o ganlyniad i unrhyw driniaeth awdurdodedig ag alwmina actifedig mor isel ag y bo'n ddichonadwy yn dechnegol yn unol â'r arferion gorau, ac nad yw'n achosi risg i iechyd y cyhoedd);
- (c) yr ail frawddeg o Erthygl 2 (gofyniad bod gweithredwyr, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r frawddeg gyntaf o Erthygl 2, yn cyflawni ac yn monitro'r camau prosesu critigol a bennir yn yr Atodiad);
- (ch) Erthygl 3.1 (gofyniad i hysbysu'r awdurdodau cymwys ynghylch gweithredu triniaeth awdurdodedig ag alwmina actifedig, dri mis, o leiaf, cyn defnyddio'r driniaeth); a
- (d) Erthygl 4 fel y'i darllenir ynghyd ag ail baragraff Erthygl 5 (gofyniad, yn ddarostyngedig i ddarpariaeth drosiannol, bod y label ar ddŵr mwynol naturiol neu ddŵr ffynnon y rhoddwyd unrhyw driniaeth awdurdodedig ag alwmina actifedig iddo, yn cynnwys gwybodaeth benodedig, yn agos at y datganiad o'r cyfansoddiad dadansodol)."

the water concerned in an amount or number which constitutes a potential danger to human health.

(6) The checks and monitoring referred to in paragraph (5)(a), (b) and (d) must be carried out using samples representative of the quality of the water concerned which is consumed throughout the year in which the samples are taken."

7. For regulation 20 (offences and penalties) there is substituted the following regulation—

"Offences and penalties

20.—(1) A person is guilty of an offence and liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale if that person—

- (a) contravenes regulation 5, 6(1), 7(1), (3) or (4), 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15 or 22(3);
- (b) fails to comply with any provision of Regulation 115/2010 specified in paragraph (2); or
- (c) carries out an authorised activated alumina treatment that has a disinfectant action.

(2) The provisions are—

- (a) Article 1.2 (requirement that authorised activated alumina treatments be performed in accordance with the technical requirements set out in the Annex);
- (b) the first sentence of Article 2 (requirement that the release of residues into natural mineral water or spring water as a result of any authorised activated alumina treatment be as low as technically feasible according to the best practices and not pose a risk to public health);
- (c) the second sentence of Article 2 (requirement that, to ensure compliance with the first sentence of Article 2, operators implement and monitor the critical processing steps set out in the Annex);
- (d) Article 3.1 (requirement that the application of an authorised activated alumina treatment be notified to the competent authorities at least three months prior to use); and
- (e) Article 4 as read with the second paragraph of Article 5 (requirement that, subject to a transitional provision, the label on natural mineral water or spring water subjected to any authorised activated alumina treatment include specified information in proximity to the statement of the analytical composition)."

8. Yn union ar ôl Atodlen 1 (amodau ar gyfer trin dŵr mwynol naturiol a dŵr ffynnon gydag aer a gyfoethogwyd ag osôn), mewnosoder yr Atodlen a bennir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

9. Yn union ar ôl Atodlen 8 (Mynegiadau labelu ar gyfer dŵr mwynol naturiol a meini prawf ar gyfer eu defnyddio) ychwaneger yr Atodlenni a bennir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

10. Diwygir testun Cymraeg y prif Reoliadau fel a ganlyn—

(1) Yn rheoliad 2(1) yn y diffiniad o "dŵr yfed", yn lle'r geiriau ""dŵr ffynnon"" yn is-baragraff (b) rhodder y geiriau ""spring water"";

(2) Yn rheoliadau 2(1), 6(1)(a)(i), 8(2)(ch), 10(2), 11(3)(c) ac 16(2), yn lle'r geiriau "techneg awdurdodedig i ocsidio aer a gyfoethogwyd ag osôn" ym mha le bynnag y digwyddant, rhodder y geiriau "techneg ocsidio awdurdodedig gydag aer a gyfoethogwyd ag osôn";

(3) Yn rheoliad 8(1)(dd), yn lle'r geiriau ""gall fod yn ddiwretig"" rhodder ""may be diuretic"" ac yn lle'r geiriau ""gall fod yn garthydd"" rhodder ""may be laxative"";

(4) Yn rheoliad 8(1)(e), yn lle'r geiriau ""mae'n ysgogi treuliad"" rhodder ""stimulates digestion"", ac yn lle'r geiriau ""gall hyrwyddo'r swyddogaethau hepato-bustlog"" rhodder ""may facilitate the hepato-biliary functions"";

(5) Yn rheoliad 9(1), yn lle'r cyfeiriad cyntaf at y geiriau ""dŵr mwynol naturiol"" rhodder y geiriau ""natural mineral water"";

(6) Yn rheoliad 10(1), yn lle'r geiriau "neu "dŵr ffynnon"" rhodder ""spring water"";

(7) Yn rheoliad 11(1), (2), (3) yn lle'r geiriau ""dŵr ffynnon"" rhodder y geiriau ""spring water"" ym mha le bynnag y digwyddant ac eithrio ym mhennawd y rheoliad;

(8) Yn rheoliad 12 yn lle ""dŵr ffynnon"" rhodder y geiriau ""spring water"" ym mha le bynnag y digwyddant ac eithrio ym mhennawd y rheoliad;

(9) Yn rheoliad 14(a)(ii) a (b)(ii), yn lle'r geiriau ""dŵr mwynol"" rhodder ""mineral water"";

(10) Ym mharagraff 5(3) o Atodlen 4 yn lle'r geiriau ""dŵr ffynnon"" rhodder ""spring water"".

8. Immediately after Schedule 1 (conditions for treatment of natural mineral water and spring water with ozone-enriched air) there is inserted the Schedule set out in Schedule 1 to these Regulations.

9. Immediately after Schedule 8 (labelling indications for natural mineral water and criteria for use) there are added the Schedules set out in Schedule 2 to these Regulations.

10. The Welsh text of the principal Regulations is amended as follows—

(1) In regulation 2(1) in the definition of "dŵr yfed", the words ""dŵr ffynnon"" in sub-paragraph (b) are substituted with the words ""spring water"";

(2) In regulations 2(1), 6(1)(a)(i), 8(2)(ch), 10(2), 11(3)(c) and 16(2), the words "techneg awdurdodedig i ocsidio aer a gyfoethogwyd ag osôn" wherever they appear are substituted with the words "techneg ocsidio awdurdodedig gydag aer a gyfoethogwyd ag osôn";

(3) In regulation 8(1)(dd), the words ""gall fod yn ddiwretig"" are substituted with the words ""may be diuretic"" and the words ""gall fod yn garthydd"" are substituted with the words ""may be laxative"";

(4) In regulation 8(1)(e), the words ""mae'n ysgogi treuliad"" are substituted with the words ""stimulates digestion"", and the words ""gall hyrwyddo'r swyddogaethau hepato-bustlog"" are substituted with the words ""may facilitate the hepato-biliary functions"";

(5) In regulation 9(1), the first reference to the words ""dŵr mwynol naturiol"" is substituted with the words ""natural mineral water"";

(6) In regulation 10(1), the words "neu "dŵr ffynnon"" are substituted with the words ""spring water"";

(7) In regulation 11(1), (2), (3) the words ""dŵr ffynnon"" are substituted with the words ""spring water"";

(8) In regulation 12 the words ""dŵr ffynnon"" are substituted with the words ""spring water"" wherever they occur except in the heading of the regulation;

(9) In regulation 14 (a)(ii) and (b)(ii) the words ""dŵr mwynol"" are substituted with the words ""mineral water"";

(10) In paragraph 5(3) of Schedule 4 the words ""dŵr ffynnon"" are deleted and replaced with ""spring water"".

Gwenda Thomas

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol
o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion
Cymru

11 Mawrth 2010

Deputy Minister for Social Services under the
authority of the Minister for Health and Social
Services, one of the Welsh Ministers

11 March 2010

ATODLEN I'W MEWNOSOD YN UNION
AR ÔL ATODLEN 1 I REOLIADAU DŴR
MWYNOL NATURIOL, DŴR FFYNNON A
DŴR YFED WEDI'I BOTELU (CYMRU)
2007

SCHEDULE INSERTED IMMEDIATELY
AFTER SCHEDULE 1 TO THE NATURAL
MINERAL WATER, SPRING WATER AND
BOTTLED DRINKING WATER (WALES)
REGULATIONS 2007

"ATODLEN 1A

"SCHEDULE 1A

Rheoliadau 2(1) ac 16(3)

Regulations 2(1) and 16(3)

AMODAU AR GYFER TRIN DŴR
MWYNOL NATURIOL A DŴR FFYNNON
GYDAG ALWMINA ACTIFEDIG I DYNNU
FFLWORID OHONYNT

CONDITIONS FOR TREATMENT OF
NATURAL MINERAL WATER AND
SPRING WATER WITH ACTIVATED
ALUMINA TO REMOVE FLUORIDE

1. Rhaid i berson sy'n ceisio cael awdurdodiad ar gyfer triniaeth i ddŵr mwynol naturiol a dŵr ffynnon gydag alwmina actifedig er mwyn tynnu fflworid ohono—

- (a) gwneud cais ysgrifenedig i'r awdurdod perthnasol yr echdynnir y dŵr yn ei ardal;
- (b) caniatáu i gynrychiolwyr yr awdurdod hwnnw archwilio'r dull o drin arfaethedig, a lleoliad y driniaeth a chymryd samplau ar gyfer eu dadansoddi yn unol â rheoliad 17; ac
- (c) darparu pa bynnag wybodaeth, i gefnogi'r cais, y gofynnir amdani gan yr awdurdod perthnasol.

2. Rhaid i'r awdurdod perthnasol asesu'r cais ac unrhyw wybodaeth sydd yn ei feddiant a rhaid iddo awdurdodi'r driniaeth os bodlonir ef—

- (a) y cydymffurfir ag Erthyglau 1 i 3 o Reoliad 115/2010 mewn perthynas â'r driniaeth; a
- (b) nad yw'r driniaeth yn cael effaith ddiheintiol.

3. Os bydd yr awdurdod perthnasol yn penderfynu awdurdodi triniaeth yn unol â pharagraff 2, rhaid iddo hysbysu'r ceisydd mewn ysgrifenedig a datgan y dyddiad pan fydd yr awdurdodiad ar gyfer defnydd masnachol o'r driniaeth yn effeithiol.

4. Os bydd yr awdurdod perthnasol yn gwrthod awdurdodi triniaeth yn unol â pharagraff 2, rhaid iddo hysbysu'r ceisydd mewn ysgrifenedig, gan ddatgan ei resymau.

5. Pan fo triniaeth wedi ei hawdurdodi yn unol â pharagraff 2, rhaid i'r person sy'n cyflawni'r driniaeth, er mwyn galluogi'r awdurdod perthnasol i asesu a yw'r amodau ym mharagraff (2) yn parhau i gael eu bodloni—

1. A person seeking to have authorised a treatment of natural mineral water and spring water with activated alumina in order to remove fluoride must—

- (a) apply in writing to the relevant authority within whose area the water is extracted;
- (b) permit representatives of that authority to examine the proposed method of treatment and place of treatment and take samples for analysis in accordance with regulation 17; and
- (c) provide such information in support of the application as is requested by the relevant authority.

2. The relevant authority must assess the application and any information in its possession and must authorise the treatment if it is satisfied that—

- (a) Articles 1 to 3 of Regulation 115/2010 are complied with in relation to the treatment; and
- (b) the treatment does not have a disinfectant action.

3. Where the relevant authority decides to authorise a treatment pursuant to paragraph 2, it must inform the applicant in writing and state the date from which the authorisation for commercial use of the treatment has effect.

4. Where the relevant authority refuses to authorise a treatment pursuant to paragraph 2, it must inform the applicant in writing, stating its reasons.

5. Where a treatment has been authorised pursuant to paragraph 2, the person carrying out the treatment must, for the purpose of enabling the relevant authority to assess whether the conditions in paragraph 2 continue to be satisfied—

- (a) caniatáu i gynrychiolwyr yr awdurdod archwilio'r dull o gyflawni'r driniaeth, a lleoliad y driniaeth a chymryd samplau ar gyfer eu dadansoddi yn unol â rheoliad 17; a
- (b) darparu pa bynnag wybodaeth i gefnogi'r cais, y gofynnir amdani gan yr awdurdod perthnasol.

6. Os bodlonir yr awdurdod perthnasol nad yw'r amodau a bennir ym mharagraff 2 bellach yn cael eu cyflawni, caiff dynnu'n ôl awdurdodiad o driniaeth drwy roi i'r person sy'n gweithredu'r driniaeth honno hysbysiad ysgrifenedig yn datgan y rhesymau dros dynnu'n ôl.

7. Pan fo'r awdurdod perthnasol wedi hysbysu ceisydd o dan baragraff 4 o'i wrthodiad i awdurdodi triniaeth o dan baragraff 2, neu os yw'n tynnu awdurdodiad o driniaeth yn ôl o dan baragraff 6, caniateir i'r person sy'n dymuno cyflawni'r driniaeth wneud cais i'r Asiantaeth am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw.

8. Pan ddaw cais am adolygiad i law'r Asiantaeth rhaid iddi –

- (a) wneud pa bynnag ymholiad ynglŷn â'r mater ag a fydd yn ymddangos yn briodol i'r Asiantaeth; a
- (b) ar ôl ystyried canlyniadau'r ymholiad hwnnw ac unrhyw ffeithiau perthnasol a ddatgelir yn ei sgil, naill ai cadarnhau'r penderfyniad, neu gyfarwyddo'r awdurdod perthnasol i ganiatáu neu adfer, yn ôl fel y digwydd, awdurdodiad ar gyfer y driniaeth y gwnaed y cais ynglŷn â hi.

9. Yn achos cyfarwyddyd o'r fath, rhaid i'r awdurdod perthnasol gydymffurfio â'r cyfarwyddyd hwnnw."

- (a) permit representatives of the authority to examine the method of treatment and place of treatment and take samples for analysis in accordance with regulation 17; and
- (b) provide such information related to the treatment as is requested by the authority.

6. If the relevant authority is satisfied that the conditions specified in paragraph 2 are no longer fulfilled, it may withdraw authorisation of a treatment by giving the person carrying out the treatment a written notice stating the grounds for withdrawal.

7. Where the relevant authority has informed an applicant under paragraph 4 of its refusal to authorise a treatment under paragraph 2 or withdraws authorisation of a treatment under paragraph 6, the person who wishes to carry out the treatment may apply to the Agency for a review of that decision.

8. Upon receiving the application for review, the Agency must –

- (a) make such enquiry into the matter as may seem to the Agency to be appropriate; and
- (b) having considered the results of that enquiry and any relevant facts elicited by it, either confirm the decision or direct the relevant authority to grant or restore, as appropriate, authorisation of the treatment in respect of which the application was made.

9. In the case of such a direction, the relevant authority must comply with the direction."

ATODLEN 2

Rheoliad 9

ATODLENNI I'W HYCHWANEGU YN UNION AR ÔL ATODLEN 8 I REOLIADAU DŴR MWYNOL NATURIOL, DŴR FFYNNON A DŴR YFED WEDI'I BOTELU (CYMRU) 2007

"ATODLEN 9

Rheoliad 16(5)(a)(iii), (b)(ii) ac (ch)

PRIODWEDDAU, ELFENNAU, SYLWEDDAU AC ORGANEBAU AC EITHRIO'R PARAMEDRAU Y MAE'N RHAI MONITRO DRWY ARCHWILIAD I BENDERFYNU EU CRYNODIAD NEU'U GWERTH MEWN DŴR YFED A BOTELWYD NEU DDŴR FFYNNON

SCHEDULE 2

Regulation 9

SCHEDULES ADDED IMMEDIATELY AFTER SCHEDULE 8 TO THE NATURAL MINERAL WATER, SPRING WATER AND BOTTLED DRINKING WATER (WALES) REGULATIONS 2007

"SCHEDULE 9

Regulation 16(5)(a)(iii), (b)(ii) and (d)

PROPERTIES, ELEMENTS, SUBSTANCES AND ORGANISMS OTHER THAN PARAMETERS WHOSE CONCENTRATION OR VALUE IN BOTTLED DRINKING WATER AND SPRING WATER MUST BE DETERMINED BY AUDIT MONITORING

<i>Priodwedd, elfen, sylwed neu organeb</i>	<i>Cryodiad neu werth</i>	<i>Uned</i>	<i>Nodiadau</i>
Amoniwm	0.50	mg/l	
Clorid	250	mg/l	Nodyn 1
<i>Clostridium perfringens</i> (gan gynnwys sborau)	0	nifer/100 ml	Nodyn 2
Dargludedd	2500	µS cm-1 ar 20oC	Nodyn 1
Haearn	200	µg/l	
Ocsidiadwyedd	5.0	mg/1 O2	Nodyn 3
Bacteria coliform	0	nifer/250 ml	
Cyfanswm carbon organig (CCO)	Dim newid annormal		Nodyn 4

<i>Property, element, substance or organism</i>	<i>Concentration or value</i>	<i>Unit</i>	<i>Notes</i>
Ammonium	0.50	mg/l	
Chloride	250	mg/l	Note 1
<i>Clostridium perfringens</i> (including spores)	0	number/100 ml	Note 2
Conductivity	2500	µS cm-1 at 20oC	Note 1
Iron	200	µg/l	
Oxidisability	5.0	mg/1 O2	Note 3
Coliform bacteria	0	number/250 ml	
Total organic carbon (TOC)	No abnormal change		Note 4

Nodyn 1: Ni ddylai'r dŵr fod yn ymosodol.

Nodyn 2: Nid oes angen mesur y paramedr hwn ac eithrio pan fo'r dŵr yn tarddu o ddŵr wyneb neu y dylanwadwyd arno gan ddŵr wyneb

Nodyn 3: Nid oes angen mesur y paramedr hwn os dadansoddir y paramedr CCO.

Nodyn 4: Nid oes angen cymhwyso'r paramedr hwn yn achos cyflenwadau o lai na 10000 m3 /diwrnod.

Note 1: The water should not be aggressive.

Note 2: This parameter need not be measured unless the water originates from or is influenced by surface water.

Note 3: This parameter need not be measured if the parameter TOC is analysed.

Note 4: This parameter need not be applied for supplies less than 10000 m3 per day.

ATODLEN 10

SCHEDULE 10

Rheoliad 16(5)(b)(i)

Regulation 16(5)(b)(i)

PARAMEDRAU, PRIODWEDDAU,
ELFENNAU, SYLWEDDAU AC
ORGANEBAU Y MAE'N RHAIID MONITRO
MEWN PERTHYNAS Â HWY DRWY
WIRIADAU

PARAMETERS, PROPERTIES, ELEMENTS,
SUBSTANCES AND ORGANISMS IN
RELATION TO WHICH CHECK
MONITORING MUST BE CARRIED OUT

Alwminiwm (Nodyn 1)

Aluminium (Note 1)

Amoniwm

Ammonium

Lliw

Colour

Dargludedd

Conductivity

Clostridium perfringens (gan gynnwys sborau)
(Nodyn 2)

Clostridium perfringens (including spores) (Note
2)

Escherichia coli (E. Coli)

Escherichia coli (E. Coli)

Crynodiad ïonau hydrogen

Hydrogen ion concentration

Haearn (Nodyn 1)

Iron (Note 1)

Nitraid (Nodyn 3)

Nitrite (Note 3)

Arogl

Odour

Pseudomonas aeruginosa

Pseudomonas aeruginosa

Blas

Taste

Cyfrifau cytrefi ar 22°C a 37°C

Colony count 22°C and 37°C

Bacteria coliform

Coliform bacteria

Cymylogrwydd

Turbidity

Nodyn 1: Angenrheidiol yn unig pan ddefnyddir ef
fel clystyrydd

Note 1: Necessary only when used as flocculant

Nodyn 2: Angenrheidiol yn unig os yw'r dŵr yn
tarddu o ddŵr wyneb neu y dylanwadwyd arno gan
ddŵr wyneb

Note 2: Necessary only if the water originates from
or is influenced by surface water

Nodyn 3: Angenrheidiol yn unig pan ddefnyddir
cloramineiddio i ddiheintio

Note 3: Necessary only when chloramination is
used as a disinfectant

Rheoliad 16(5)(c)

Regulation 16(5)(c)

**AMLDERAU LLEIAF AR GYFER SAMPLU
A DADANSODDI DŴR FFYNNON A DŴR
YFED A BOTELWYD**

**MINIMUM FREQUENCIES FOR
SAMPLING AND ANALYSIS OF SPRING
WATER AND BOTTLED DRINKING
WATER**

Amllder lleiaf samplu a dadansoddi dŵr a roddir mewn poteli neu gynwysyddion gyda'r bwriad o'i werthu		
Cyfaint y dŵr a gynhyrchir i'w gynnig ar werth mewn poteli neu gynwysyddion bob diwrnod ⁽¹⁾ m ³	Monitro drwy wiriadau: nifer o samplau bob blwyddyn	Monitro drwy archwiliad: nifer o samplau bob blwyddyn
≤ 10	1	1
> 10 ≤ 60	12	1
> 60	1 am pob 5m ³ a rhan o hynny yn y cyfanswm cyfaint	1 am pob 100m ³ a rhan o hynny yn y cyfanswm cyfaint
⁽¹⁾ Cyfrifir y cyfeintiau fel cyfartaleddau dros flwyddyn galendr.		

..

© Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Minimum frequency of sampling and analysis for water put into bottles or containers intended for sale		
Volume of water produced for offering for sale in bottles or containers each day ⁽¹⁾ m ³	Check monitoring number of samples per year	Audit monitoring number of samples per year
≤ 10	1	1
> 10 ≤ 60	12	1
> 60	1 for each 5 m ³ and part thereof of the total volume	1 for each 100 m ³ and part thereof of the total volume
⁽¹⁾ The volumes are calculated as averages taken over a calendar year.		

..

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2010 Rhif 748 (Cy.76)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol,
Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i
Botelu (Cymru) (Diwygio)
2010

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2010 No. 748 (W.76)

FOOD, WALES

The Natural Mineral Water, Spring
Water and Bottled Drinking Water
(Wales) (Amendment) Regulations
2010